

SGANDAL PRIMODOS



Y ddelwedd a ddarparwyd gan y grŵp ymgyrchu Primodos

Yn ystod y 1960au a'r 1970au, rhoddwyd Primodos i fwy na miliwn o fenywod. Prawf beichiogrwydd seiliedig ar hormonau oedd Primodos, ac roedd yn cynnwys dwy bilsen, sef: un bilsen a oedd yn cynnwys progesteron ac un arall a oedd yn cynnwys oestrogen. Roedd Primodos yn cynnwys hormonau a oedd 40 gwaith yn gryfach na thabledi atal cenhedlu modern.

Yn y 1960au, darganfu Dr Isabel Gal fod yna fwy o fabanod â namau geni yn cael eu geni i famau a oedd wedi cymryd Primodos. Ym 1967, rhoddodd Dr Gal rybudd i Bwyllgor y Llywodraeth ar Ddiogelwch Cyffuriau, a gâi ei arwain gan Dr William Inman, ynglŷn â pheryglon y cyffur. Yn hytrach na rhybuddio meddygon, rhoddodd Dr Inman wybod i Schering, y gweithgynhyrchwyr, am ymchwil Dr Gal. Aeth ati i dawelu meddwl Schering trwy awgrymu bod y namau geni wedi deillio o'r ffaith bod y menywod wedi defnyddio'r cyffur yn amhriodol.

Fe wnaeth y Pwyllgor ar Ddiogelwch Cyffuriau anwybyddu'r argymhellion y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio Primodos, ac ni roddwyd unrhyw rybuddion i feddygon teulu tan 1975. Parhaodd Primodos i fod ar y farchnad yn y DU tan 1978.

Mae gweithgynhyrchwyr Primodos, sef Schering (Bayer erbyn hyn), yn parhau i wadu bod yna unrhyw gysylltiad rhwng y cyffur a'r namau geni.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
primodos.org

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Ers 2013, mae ffeiliau y daethpwyd o hyd iddynt yn Archifau Cenedlaethol Berlin wedi datgelu bod Dr Inman yn gwybod bod y menywod a oedd yn cymryd Primodos yn wynebu “risg o un mewn pump o roi genedigaeth i blant â chamffurfiadau.” Eto i gyd, dywedodd Dr Inman wrth Schering na ddylid tynnu'r cyffur yn ôl er mwyn “osgoi problemau meddygol-gyfreithiol.”

Yn ddiweddarach, dinistriodd Dr Inman ei waith ymchwil ei hun er mwyn sicrhau na fyddai modd ei ddefnyddio mewn hawliadau cyfreithiol, a cheisiodd ddwyn anfri ar Dr Gal, gan ei disgrifio fel “unigolyn braidd yn drist.”

Mewn ymchwiliad a gynhaliwyd gan Sky News yn 2020, bwriwyd amheuaeth ar uniondeb ymchwiliad y llywodraeth yn 2017. Datgelwyd bod adroddiad yr ymchwiliad wedi cael ei addasu a bod tystiolaeth hollbwysig, a oedd yn cysylltu Primodos â chamffurfiadau, wedi cael ei dileu.

WHY WE NEED HILLSBOROUGH LAW

“Ym 1967, dylid bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio profion beichiogrwydd fel Primodos [...] Mae angen ymddiheuro, ac mae'r rhai sydd wedi dioddef niwed osgoadwy angen cymorth”

Y Farwnes Cumberlege

“Yn fy marn i, dyma o bosibl un o'r enghreifftiau gwaethaf a welwyd erioed o gwmni fferyllol yn celu sgandal”

Ed Davey AS